Cronfa Loteri Fawr

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cronfa Gymunedol

## Am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006











| | |
|---|---|
| | Tachwedd, 2006 |
| **Côd** | |
| **Hawlfraint** | © Big Lottery Fund, 2006 |
| **Cynllunio** | Graphicsi.com |
| **Argraffu** | Belmont Press |
| **Copïau:** | Ceir rhagor o gopïau trwy ffonio: 0845 4 10 20 30 gan ddyfynu'r cyfeirnod uchod: |
| | Neu anfonwch ebost atom yn ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk |
| | Ffôn testun 0845 0390204 |
| | 8am to 6pm Dydd Llun i Ddydd Gwener |
| | Hefyd ar gael ar eich cais mewn Braille, casét sain, ar ddisg mewn print bras, Saesneg ac ieithoedd cymunedol |
| **Rydym yn poeni am yr amgylchedd** | Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio lleihau ei heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac mae'n defnyddio adnoddau gwirioneddol gynaliadwy yn unig |
| **Ein hymrwymiad i gyfleoedd cyfartal** | Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ymroi i werthfawrogi amrywiaeth ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal, fel dyfarnwr grantiau a chyflogwr. Nod y Gronfa Loteri Fawr yw gweithredu'n gynhwysol i sicrhau fod ymgeiswyr a deiliaid grantiau, budd-ddeiliaid, ceiswyr swyddi a'n staff yn cael eu trin yn deg. Mae pob aelod o'n staff ac aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnal a gweithredu ein polisi cydraddoldeb |
| | Cronfa Loteri Fawr yw'r enw a ddefnyddir gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd a Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol (a oedd yn dosbarthu grantiau dan enw'r Gronfa Gymunedol) wrth weithredu ar y cyd |

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

# Y Gronfa Gymunedol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

## am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006

Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd mewn cydymffurfiad ag adran 34(3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon.

Paratowyd y cyfrifon yn unol ag Adran 39(1) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 ac y'i cyflwynwyd gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 28 Tachwedd 2006.

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban gan Aelodau'r Alban ar 28 Tachwedd 2006.

HC 20 London: The Stationery Office £25.00.

SE/2006/201

© Crown Copyright 2006
The text in this document (excluding any Royal Arms and departmental logos) may be reproduced free of charge in any format or medium providing that it is reproduced accurately and not used in a misleading context. The material must be acknowledged as Crown copyright and the title of the document specified.
Any queries relating to the copyright in this document should be addressed to
The Licensing Division, HMSO, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich, NR3 1BQ.
Fax: 01603 723000 or e-mail: licensing@cabinet-office.x.gsi.gov.uk.

# Y Gronfa Gymunedol
# Adroddiad blynyddol a Chyfrifon 2005/06

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr | | 2 |
| Adran 1 | Amdanom ni, ein fframwaith a'r hyn rydym yn ei wneud | 6 |
| Adran 2 | Sut rydym yn gweithio, ein strategaeth a'n strwythur | 12 |
| Adran 3 | Ein rhaglenni grant | 18 |
| Adran 4 | Ein perfformiad gweithredol | 38 |
| Adran 5 | Ein perfformiad ariannol, yn cynnwys: | 52 |
| | Yr adroddiad cydnabyddiaeth ariannol | 56 |
| | Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo | 59 |
| | Datganiad ar Reolaeth fewnol | 61 |
| | Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol | 69 |
| | Cyfrifon Blynyddol | 77 |
| Adran 6 | Ein cefndir statudol | 99 |
| Adran 7 | Grantiau dros £100,000 a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn | 106 |

# Cyflwyniad

## gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn nodi cyflawniadau'r Gronfa Loteri Fawr yn ystod 2005/06. Y llynedd adroddwyd ar uniad gweinyddol llwyddiannus y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol, a ddaeth ynghyd i ffurfio'r Gronfa Loteri Fawr. Nes bod y ddeddfwriaeth i ffurfioli'r uniad gweinyddol hwn yn dod yn ddeddf, byddwn yn adrodd yn ffurfiol ar wahân ar weithgareddau'r ddau gorff statudol. Mae'r adroddiad hwn yn nodi datblygiad a pherfformiad y Gronfa Loteri Fawr fel y mae'n berthnasol i'r Gronfa Gymunedol, yn cynnwys sut y cafodd yr adnoddau hynny a ddarparwyd i'r Gronfa Gymunedol eu defnyddio.

Yn 2005/06, gwelwyd sawl datblygiad allweddol i'r Gronfa Loteri Fawr, paratoi ein cynllun strategol ar gyfer y cyfnod hyd at 2009, cynllunio a lansio ystod o raglenni newydd ar draws y DU a gweithredu rhaglen o newid mawr wedi ei chynllunio i gyflwyno effeithlonrwydd busnes.

Wrth barhau i integreiddio strwythurau'r ddwy gronfa etifeddiaeth ac i ddatblygu ein busnes newydd, rydym wedi defnyddio canlyniadau'r ymgynghoriadau mawr, ar draws y DU gyda'n rhanddeiliaid a'r cyhoedd ehangach i ddatblygu'r cynllun strategol ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr. Nodir y manylion yn adran 2 yr adroddiad hwn.

Yn ystod 2005/06, gwnaed ymdrech sylweddol i ddatblygu rhaglenni grant newydd yn adlewyrchu'r themâu a'r canlyniadau a ddaeth i'r amlwg o'n hymgynghoriadau. Gan nad yw'r Gronfa Loteri Fawr yn bodoli'n gyfreithiol eto byddwn, er hwylustod, yn gwneud dyfarniadau trwy'r rhaglenni hyn gan ddefnyddio pwerau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Rydym wedi datblygu ymagwedd portffolio cymysg tuag at arian, o dan arweiniad strategol ac mewn ymateb i alw. Rydym wedi cyflwyno adfer cost llawn ar gostau gorbenion dilys ar gyfer sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, a mwy o hyblygrwydd yn hyd ein harian.



# Cyflwyniad

Rydym wedi datblygu agwedd portffolio cymysg tuag at ariannu, yn cael ei arwain yn startegol ac yn ol y galw. Rydym wedi cyflwyno adferiad cost llawn ar gostau cyffredinol dilys ar gyfer sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, a mwy o hyblygrwydd yn hyd ein cyfnod ariannu. Rydym hefyd wedi datblygu strategaeth werthuso, ymchwil a dysgu ar gyfer 2005 i 2009. Rydym wedi lansio 16 o raglenni i gyd, yn cynnwys y rhaglen Reaching Communities yn Lloegr rhaglen sy'n ymateb i alw a heb ei rhagnodi'n fanwl iawn, Pawb a'i Le yng Nghymru a rhaglenni'r Gronfa Pobl Ifanc yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ar hyn o bryd rydym yn llunio nifer o raglenni eraill a byddwn yn lansio 23 arall yn 2006/07. Ceir manylion ein rhaglenni yn yr adroddiad hwn.

Ar yr un pryd, rydym hefyd wedi integreiddio ac ailstrwythuro ein swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn llwyddiannus, wedi agor Canolfan Newcastle ac wedi ailffocysu ein presenoldeb rhanbarthol yn Lloegr, gyda chylch gwaith wedi ei ehangu ar gyfer gwaith allgymorth a phartneriaeth gwybodaeth ranbarthol. Disgwylir i Ganolfan Birmingham agor erbyn diwedd 2006. Bydd y ddwy ganolfan newydd yn Newcastle a Birmingham yn cyflwyno mwyafrif helaeth ein swyddogaethau rheoli grant yn Lloegr. Mae llawer o'r swyddogaethau a leolid yn Llundain ac yn hen Swyddfeydd Rhanbarthol Lloegr ar hyn o bryd yn cael eu symud fesul cam a bydd y gwaith hwn wedi ei orffen i bob pwrpas yn ystod 2007.

Yn ystod 2005/06, rydym wedi gwneud y dyfarniadau terfynol o dan raglenni grant etifeddiaeth y Gronfa Gymunedol. Trwy'r rhaglenni etifeddiaeth hyn a rhaglenni newydd y Gronfa Loteri Fawr, rydym yn 2005/06 wedi ymrwymo £350 miliwn o arian. Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid allweddol a'n deiliaid grant i sicrhau bod yr arian a ddyfernir yn cyrraedd buddiolwyr cyn gynted â phosibl; yn ystod y flwyddyn rydym wedi talu £227 miliwn mewn grantiau.

Yn olaf, rydym wedi parhau i arwain y ffordd ar ddwyn yr agenda ar gyfer cydweithio, cyfranogiad y cyhoedd a hyrwyddo manteision y Loteri Genedlaethol, a bwysleisiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn 2003, yn eu blaen. Rydym wedi sefydlu'r fframwaith ar gyfer prif ganolfan ragoriaeth ac wedi ail-ddylunio'r wefan cyd-ddosbarthwyr, wedi cefnogi gwaith Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol, yn cynnwys y cymhelliant tuag at frandio cyffredin, wedi lansio rhaglen (Miliynau'r Bobl) sy'n galluogi pobl i bleidleisio dros eu hoff brosiectau fel y'u gwelir ar y teledu ac wedi cynnwys pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau ar grantiau o dan ein Cronfa Pobl Ifanc.

Hoffem ddiolch i bawb fu'n rhan o gyflawniadau sylweddol y Gronfa Loteri Fawr eleni. Ni fyddent wedi digwydd heb arweinyddiaeth a chyfarwyddyd aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor a gwaith caled, proffesiynoldeb ac ymroddiad y staff, y bu hon yn flwyddyn o ansicrwydd personol sylweddol i lawer ohonynt.

Rydym o'r farn bod yr ariannwr newydd, gwahanol a gwell a addawyd y llynedd yn dechrau dod i'r amlwg; ariannwr mwy deallus a ddaw â gwelliannau gwirioneddol i gymunedau ac i fywydau pobl sydd fwyaf mewn angen.

**Sir Clive Booth**
Cadeirydd

**Stephen Dunmore**
Prif Weithredwr

10 Tachwedd 2006

# Adran un

Amdanom ni, ein fframwaith a'r hyn rydym yn ei wneud

## Ein hanes a'n fframwaith statudol

Ym mis Chwefror 2003 gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'r Gronfa Gymunedol (enw gweithredol Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol) a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd i ddod ynghyd i greu dosbarthwr newydd y Loteri, gan adeiladu ar gryfderau'r ddau sefydliad. Ym mis Tachwedd 2003, penodwyd Stephen Dunmore yn Brif Weithredwr y ddau gorff a lluniodd dîm rheoli ar y cyd i arwain y dosbarthwr newydd. Gyda phenodi Cadeirydd a Bwrdd, crëwyd y Gronfa Loteri Fawr yn weinyddol ar 1 Mehefin 2004.

Rydym yn disgwyl i'r Gronfa Loteri Fawr ddechrau'n ffurfiol ar 1 Rhagfyr 2006 yn amodol ar yr amserlen Seneddol. Mae Bwrdd newydd y Gronfa Loteri Fawr yn debygol o gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2006. Tan yr amser hwn, bydd y ddau sefydliad 'etifeddiaeth' yn parhau i weithio fel corff wedi ei uno'n weinyddol ac yn gosod y sylfeini ar gyfer y sefydliad newydd. Nes bod y ddeddfwriaeth yn ei lle bydd pŵerau statudol y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn parhau i gael eu defnyddio a byddwn yn adrodd ar wahân ar waith, perfformiad a materion ariannol y ddau gorff. Mae'r adroddiad hwn yn delio â'r Gronfa Gymunedol.

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n gyfrifol am bolisi'r Loteri Genedlaethol o fewn y Llywodraeth ac mae'n nodi'r polisi a'r fframwaith ariannol y mae'r cyrff dosbarthu'n gweithio o'u mewn. Ar hyn o bryd ceir 15 o gyrff dosbarthu annibynnol sy'n gyfrifol am ddyfarnu grantiau Loteri.

Sefydlwyd y Gronfa Gymunedol gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993. Mae'r Gronfa Gymunedol yn gorff cyhoeddus anadrannol DU eang, a reoleiddir yn unol â'r Datganiad Rheoli, Cyfarwyddiadau Ariannol a Chyfarwyddiadau Polisi a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

## Yr hyn rydym yn ei wneud – rhoi grantiau

Sefydlwyd y Gronfa Gymunedol i roi grantiau'r Loteri Genedlaethol i'r sector gwirfoddol a chymunedol. Rydym yn derbyn cyfarwyddiadau polisi gan y Llywodraeth sy'n nodi'r egwyddorion y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â hwy. Nodir y Cyfarwyddiadau Polisi hyn yn Adran 6 yr adroddiad blynyddol hwn.

Cyhoeddwyd cyfarwyddiadau polisi newydd yn 2005 ar gyfer y fenter grantiau trawsnewid, bellach wedi ei sefydlu fel y rhaglenni Creu Cof Byw a Miliynau'r Bobl.

Yn 2005 cytunodd y Llywodraeth hefyd gyda'r Gronfa Loteri Fawr ar set o themâu a chanlyniadau strategol. Mae'r rhain yn ein galluogi ni i ddatblygu polisïau a rhaglenni mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol.

Mae ein rhaglenni ariannu newydd yn dilyn tair thema eang sy'n ein galluogi i gefnogi ystod eang o brosiectau ar draws y DU:

- cefnogi dysgu yn y gymuned a chreu cyfle
- hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol
- hyrwyddo lles.

Rydym hefyd wedi gosod nifer o ganlyniadau ar gyfer ein rhaglenni. Mae'r canlyniadau – yr hyn a gyflawnir gyda'n harian – yn ganlyniad ymgynghoriadau ar wahân ym mhob gwlad yn y DU. Maent felly yn wahanol ym mhob gwlad, gan adlewyrchu'r heriau a'r galw unigryw yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn ystod 2005/06 rydym wedi bod yn datblygu'r rhaglenni newydd sy'n deillio o'r themâu a'r canlyniadau hyn.

Rydym wedi lansio nifer o raglenni'n cynnwys:

- Reaching Communities, Parks for People a Chwarae Plant yn Lloegr
- Cronfa Pobl Ifanc yn yr Alban
- Pawb a'i Le a'r Gronfa Pobl Ifanc yng Nghymru
- Change UR Future yng Ngogledd Iwerddon.

Rydym ar hyn o bryd yn llunio nifer o raglenni eraill a byddwn yn lansio 23 o raglenni eraill yn 2006/07.

Yn ogystal â datblygu rhaglenni y Gronfa Loteri Fawr, rydym wedi parhau gyda gwaith ein rhaglenni etifeddiaeth trwy gynnig gwasanaeth ansawdd uchel i'n hymgeiswyr, deiliaid grant, partneriaid a rhanddeiliaid allweddol. Yn ystod 2005/06, gwnaethom y dyfarniadau terfynol ar raglenni grantiau etifeddiaeth y Gronfa Gymunedol.

Yn 2005/06, gwnaethom ddyfarniadau o £350 miliwn. Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid allweddol a'n deiliaid grant i sicrhau bod yr arian sy'n cael ei ddyfarnu yn cyrraedd y buddiolwyr mor gyflym â phosibl; yn ystod eleni rydym wedi talu £227 miliwn mewn grantiau.

Ceir manylion ein holl raglenni yn adran tri yr adroddiad hwn.

## Ein hailstrwythuro

Y llynedd adroddwyd ar yr uniad gweinyddol llwyddiannus rhwng y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol. Yn ystod 2005/06, rydym wedi parhau â'r rhaglen o integreiddio ac ailstrwythuro i gyflwyno'r arbedion a'r effeithlonrwydd disgwyliedig o'r uniad hwn.

Cafodd y swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon eu hintegreiddio a'u hailstrwythuro'n llwyddiannus yn ystod 2004/05.

Yn Lloegr rydym wedi gweithredu rhaglen o newid mawr, yr "Arolwg Strwythurol". Ystyriwyd sut a ble rydym am weinyddu ein gweithgareddau gwneud grantiau a'n swyddogaethau cefnogaeth gorfforaethol yn Lloegr i sicrhau effeithlonrwydd gweithredol a gwasanaethau cwsmeriaid gwell.

Caiff gweithgareddau asesu a rheoli grantiau yn Lloegr eu cyfuno yn nwy ganolfan Newcastle a Birmingham. Byddwn yn cadw ac yn gwella presenoldeb rhanbarthol i gynnal a datblygu cysylltiadau â rhanddeiliaid lleol a gweithgareddau allgymorth. Caiff swyddogaethau cymorth corfforaethol eu lleoli yn Llundain neu yng Nghanolfan Birmingham.

Dechreuwyd gweithredu'r penderfyniadau hyn yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Yn ystod 2005/06, ymgynghorwyd â'r ddau Undeb Llafur cydnabyddedig ynglŷn â cholli swyddi yn ein swyddfeydd rhanbarthol. Recriwtiwyd 87 aelod o staff yng Nghanolfan Newcastle gan symud i'n hadeilad newydd ym Mawrth 2006. Bydd ein Canolfan yn Birmingham yn agor yn ystod 2006/07.

# Adran un

## Ein Harian Loteri

Daw ein hincwm o'r Loteri Genedlaethol. Mae'r Gronfa Gymunedol yn derbyn 16.67 y cant o'r holl incwm a godir gan y Loteri Genedlaethol at yr achosion da. Buddsoddir yr incwm hwn yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF), sydd o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Rydym yn derbyn llog a enillir ar ein balansau Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo cyllidebau grant o £2.2 biliwn ar gyfer rhaglenni newydd am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2009 yn seiliedig ar ragolygon cronfeydd fydd ar gael. Wrth osod y cyllidebau hyn, ystyriodd y Bwrdd y perygl y gallai ein hincwm ostwng, pe byddai gwerthiant tocynnau ar gyfer y Loteri Genedlaethol yn dirywio. Bydd y Loteri hefyd yn cyfrannu at gost Gemau Olympaidd 2012. Ystyriwyd hefyd effaith bosibl diwedd trwydded gyfredol y Loteri Genedlaethol yn 2009.

## Y berthynas â rhanddeiliaid allweddol

Yn dilyn ein hymgynghoriadau graddfa eang yn 2004, mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi parhau i ddatblygu perthynas â rhanddeiliaid allweddol. Rydym wedi trefnu nifer o gyfarfodydd i adolygu ein polisïau ariannu ac i adolygu ein hymgymeriad i roi 60-70 y cant o'n harian i'r sector gwirfoddol a chymunedol. Yn Lloegr cynhaliwyd fforwm ar y cyd gydag ACEVO i ledaenu ein polisi adfer cost lawn ac annog arianwyr eraill i fabwysiadu egwyddorion adfer cost lawn. Rydym yn parhau'n ymroddedig i fod yn sefydliad sy'n gwrando, gan ddefnyddio adborth i lunio ein polisïau, ein gweithdrefnau a'n rhaglenni ariannu.

## Ein cenhadaeth a'n gwerthoedd

Ein cenhadaeth yn y Gronfa Loteri Fawr yw dod â gwelliannau gwirioneddol i gymunedau a bywydau pobl sydd fwyaf mewn angen.

Rydym wedi nodi saith o werthoedd sy'n tanategu ein holl waith. Maent fel a ganlyn:

- **Tegwch** – rhoi cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wraidd ein gwaith.
- **Hygyrchedd** – ei gwneud yn haws i gael mynediad at ein harian a rhoi cymorth i ymgeiswyr a derbynwyr grantiau.
- **Ffocws strategol** – gweithio mewn partneriaeth a chydgysylltu â strategaethau sy'n bodoli, datblygu rhaglenni sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau a'r gwahaniaeth y maent yn ei wneud i gymunedau.
- **Cynnwys pobl** – cynnwys cymunedau lleol yn ein gwaith a sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod a'i fod yn cyfri iddynt.
- **Arloesi** – adeiladu rhaglenni seiliedig ar dystiolaeth, rhannu'r hyn rydym yn ei ddysgu ac ystyried ffyrdd newydd o wneud grantiau.
- **Galluogi** – gweithio gyda chymunedau, partneriaid a chyllidwyr eraill i helpu i gyflawni newid sy'n para.
- **Yn ychwanegol at y Llywodraeth** – sicrhau bod ein harian ar wahân i arian y Llywodraeth ac yn ychwanegu gwerth.

Rydym hefyd wedi ymgynghori'n eang â staff i sefydlu set o werthoedd mewnol: atebolrwydd, gwerthfawrogi pobl, gwaith tîm a rhagoriaeth mewn gwasanaeth. Mae'r rhain yn mynegi'r math o gyflogwr y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn bwriadu bod a'r hyn a ddisgwylir gan ein staff.

## Edrych ymlaen

Rydym yn edrych ymlaen at nifer o ddatblygiadau sy'n effeithio ar ein harian a'r ffordd rydym wedi ein trefnu i'w gyflwyno.

Yn ddiweddar cyhoeddodd y Gronfa Loteri Fawr ei rhaglenni newydd ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd yn dosbarthu £2.2 biliwn rhwng 2006-2009. Rhennir rhaglenni i ddau faes eang: rhaglenni sy'n ymateb i alw a rhaglenni strategol. Mae'r rhaglenni sy'n ymateb i alw yn annog sefydliadau i gyflwyno eu syniadau eu hunain i ni ar gyfer ariannu. Mae'r rhaglenni strategol yn canolbwyntio'n fwy penodol ar y canlyniadau y mae'r Gronfa Loteri Fawr eisiau i'w harian
eu cyflawni.

Yn ogystal â'n rhaglenni newydd rydym wedi cyhoeddi ystod o fesurau i helpu cymunedau i gael arian gennym yn haws. Byddwn yn:

- meddu ar ymagweddau gwahanol at arian, gydag o leiaf traean ein hincwm grant yn mynd at raglenni hygyrch, gweddol rydd o ran eu rhagnodiad, sy'n ymateb i alw, yn cynnwys y cynllun Arian i Bawb sydd wedi ei ymestyn
- mwy hyblyg o ran cyfnod ariannu, gan ddarparu grantiau am hyd at bum mlynedd
- mabwysiadu'r egwyddor o adfer cost lawn trwy alluogi sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i adfer cost eu gorbenion dilys
- sicrhau y bydd 60-70 y cant o'n harian yn mynd i'r sector gwirfoddol a chymunedol
- canolbwyntio gwaith ein swyddfeydd rhanbarthol ar ddatblygu polisi, gwybodaeth ranbarthol, allgymorth, gweithio mewn partneriaeth a chysylltiadau allanol
- sefydlu dwy ganolfan ar gyfer Lloegr yn Newcastle a Birmingham i sicrhau polisi ariannu cryf, unedig
- gwneud arbedion effeithlonrwydd o 10-20 y cant (£6-£12 miliwn) ar gostau rhedeg y 2 sefydliad etifeddiaeth i'w rhoi yn ôl i mewn i ariannu prosiectau
- cyflwyno proses ymgeisio dau gam, lle y bo'n briodol, i leihau'r baich gweinyddol ar ymgeiswyr.

Mae cyfranogiad y cyhoedd yn y Loteri Genedlaethol yn flaenoriaeth bwysig i'r Llywodraeth ac i ni. Rydym yn edrych ar ffyrdd newydd o gynnwys y cyhoedd wrth benderfynu ble y dylai arian at achosion da fynd. O dan y Gronfa Pobl Ifanc recriwtiwyd pobl ifanc i eistedd ar bwyllgorau cenedlaethol a rhanbarthol i helpu i wneud penderfyniadau ariannu. Rydym wedi ymgynghori'n eang ar ein rhaglenni newydd, yn cynnwys ymchwil comisiynu ar y ffordd y mae chwaraewyr y Loteri yn meddwl y dylid gwario arian y Loteri.

Rydym hefyd wedi lansio yn 2005 ein rhaglen Miliynau'r Bobl, a alluogodd gwylwyr y teledu i bleidleisio dros eu hoff brosiect cymunedol. Yn 2005, dyfarnwyd 53 o grantiau o £50,000 o dan y cynllun hwn a lansiwyd rhaglen i ddyfarnu un grant mawr o hyd at £1.5 miliwn

# Adran un

y bydd y cyhoedd yn pleidleisio arno.

Rydym yn ymrwymedig i werthuso a dysgu, rhannu arfer da a dylanwadu ar bolisi yn genedlaethol ac yn lleol.

Lle y bo'n briodol, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r Llywodraeth ac yn ategu blaenoriaethau a rhaglenni'r Llywodraeth i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl gyda'n harian. Rydym wedi datgan ein hymrwymiad i helpu pobl a chymunedau mewn angen, hyd yn oed os yw'n golygu ariannu prosiectau a all fod yn amhoblogaidd gan rai pobl.

Yn bwysicach na dim, ni fydd y Gronfa Loteri Fawr yn Gronfa Gymunedol nac yn Gronfa Cyfleoedd Newydd. Bydd yn ariannwr newydd a gwahanol, yn canolbwyntio nid ar i bwy y rhoddir arian (p'un ai sectorau penodol neu grwpiau blaenoriaeth) ond ar ganlyniadau – yr hyn rydym yn ei ariannu a phwy sy'n elwa arno.



2005 | 2006



# Adran dau

## Sut rydym yn gweithio, ein strategaeth a'n strwythur

### Ein strategaeth

Mae'r blynyddoedd 2004-2006 wedi bod yn drawsnewidiol. Yn erbyn cefndir o uno, ailstrwythuro, cyflwyno, cau rhaglenni cyfredol a datblygu rhaglenni newydd rydym wedi bod yn gosod sylfaen gadarn i'r Gronfa Loteri Fawr ddod yn ariannwr newydd, gwahanol a gwell.

Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi sefydlu cynlluniau blynyddol yn hytrach na strategaeth fwy hir dymor. Yn ein cynllun corfforaethol 2005/06 nodwyd yr heriau canlynol ar gyfer y flwyddyn:

- datblygu a lansio rhaglenni grant newydd sy'n bodloni ein prif themâu, canlyniadau a blaenoriaethau
- bodloni targedau cyflwyno ar bob rhaglen grant gyfredol, tra'n ailstrwythuro swyddfeydd rhanbarthol Lloegr, ein trefniadau rheoli grantiau a'n gwasanaethau corfforaethol
- dylunio a datblygu model a phroses cynllunio busnes strategol a chorfforaethol ar gyfer 2006-09, gan gryfhau rheolaeth a gwella perfformiad y sefydliad newydd
- parhau i integreiddio'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol, a gweithredu strategaethau a pholisïau cydlynus i gyflwyno ein busnes.

Rydym wedi gosod chwe amcan i ni'n hunain wedi eu cefnogi gan 23 o ddangosyddion perfformiad. Yn adran pedwar yr adroddiad hwn nodwyd sut rydym wedi perfformio yn erbyn yr amcanion hyn.

Gallwn bellach ystyried ein strategaeth tymor hwy. Byddwn yn cwblhau ein cynllun strategol ar gyfer y cyfnod o Ebrill 2006 i Fawrth 2009. Dyma fydd Cynllun Strategol cyntaf y Gronfa Loteri Fawr.

Bydd y Cynllun Strategol yn nodi pwy ydym, ble rydym ni nawr a ble rydym eisiau bod yn 2009. Bydd yn cynnwys y canlynol.

- Ein cenhadaeth, ein gwerthoedd a'n fframwaith deddfwriaethol. Mae'r rhain yn disgrifio pwy ydym a'r hyn rydym yn ei gefnogi. Mae'n ein gwneud yn wahanol i gyrff eraill sy'n rhoi grantiau.
- Ein cyflawniadau allweddol dros y ddwy flynedd diwethaf, sy'n sefydlu ble rydym ar ddechrau'r cyfnod hwn o'r Cynllun Strategol.
- Ein hymgynghoriadau, cyfeiriadau polisi newydd a'n datganiad cyrchfan, sy'n nodi ble rydym eisiau bod yn 2009.
- Ein fframweithiau ariannu a rhaglenni newydd yn esbonio'r gwahaniaeth yr hoffem ei wneud i gymunedau a bywydau pobl sydd fwyaf mewn angen.
- Ein cynllun corfforaethol blynyddol sy'n adlewyrchu ein blaenoriaethau a'n hadnoddau ar gyfer bob blwyddyn i'n symud tuag at ein nodau ar gyfer 2009.

Bydd y cynllun corfforaethol blynyddol yn cynnwys ein hamcanion corfforaethol, dangosyddion perfformiad allweddol a'r cyllidebau grant a gweithredu ar gyfer y flwyddyn honno.

Caiff ein perfformiad yn erbyn yr amcanion a'r targedau hyn eu monitro a'u hadrodd i'r Bwrdd bob tri mis a chânt eu cyhoeddi bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Caiff y Cynllun Strategol ei gyhoeddi ar gopi caled a bydd hefyd ar gael ar wefan y Gronfa Loteri Fawr yn: www.cronfaloterifawr.org.uk

## Sut rydym yn cael ein rhedeg

### Y Bwrdd

Mae gennym un Bwrdd ar gyfer y ddau sefydliad yn cynnwys 17 o aelodau (yn cynnwys Cadeirydd, Is-gadeirydd, tri aelod yr un o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a chwe aelod cyffredinol). Gwasanaethodd pob aelod o'r Bwrdd am y flwyddyn ariannol gyfan.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gyfeiriad strategol a pherfformiad cyffredinol y Gronfa Loteri Fawr, yn cynnwys ein hatebolrwydd i'r Llywodraeth a rhanddeiliaid eraill. I gyflawni ei atebolrwydd mae gan y Bwrdd bwyllgorau (y Pwyllgor Adnoddau, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol), paneli cynghori (y Fforwm Cydraddoldeb a'r Panel Gwerthuso a Dysgu) a phwyllgorau ar gyfer cynghori a gwneud penderfyniadau ariannu ar gyfer rhaglenni penodol. Nodir rhestr lawn aelodau'r Bwrdd a'u cyfrifoldebau isod.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob dau fis; mae aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn mynychu cyfarfodydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarfod bob tri mis. Mae'n cymeradwyo'r rhaglen archwilio mewnol, yn ardystio'r gofrestr risg ac yn craffu ar ganlyniadau adroddiadau archwilio mewnol ac allanol. Mae'r Pwyllgor Adnoddau yn cwrdd bob tri mis. Mae'n cymeradwyo'r gyllideb flynyddol ac yn goruchwylio gwariant. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn cwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn ac mae'n gyfrifol am oruchwylio perfformiad a chyflogau'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli.



**Syr Clive Booth**
Cadeirydd
Cyd-gadeirydd, Fforwm y Loteri Fawr/Pwyllgor Comisiwn y Mileniwm
Cadeirydd, Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol



**Y Fonesig Valerie Strachan**
Is-gadeirydd
Cadeirydd, Pwyllgor Grantiau Strategol



**Dr Samuel Burnside**
Aelod Gogledd Iwerddon
Cadeirydd, Pwyllgor Ffyrdd Actif o Fyw Gogledd Iwerddon



**David Campbell CBE**
Aelod yr Alban
Cadeirydd, Pwyllgor Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon yr Alban
Cadeirydd, Pwyllgor Cronfa Dir yr Alban

# Adran dau



**Paul Cavanagh**
Aelod Gogledd Iwerddon
Cadeirydd, Pwyllgor Cronfa Pobl Ifanc Gogledd Iwerddon



**John Gartside OBE**
Aelod Lloegr
Douglas Graham
Aelod yr Alban
Cadeirydd, Pwyllgor Active Futures yr Alban
Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg



**Tom Davies**
Aelod Cymru
Cadeirydd, Pwyllgor Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon Cymru



**Taha Idris**
Aelod Cymru
Cadeirydd, Pwyllgor Mentro Allan Cymru



**Roland Doven MBE**
Aelod Cyffredinol
Cadeirydd, Fforwm Cydraddoldeb



**Dugald Mackie**
Aelod Cyffredinol
Cadeirydd, Pwyllgor Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon Lloegr
Cadeirydd, Pwyllgor Adnoddau



**Professor Breidge Gadd CBE**
Aelod Gogledd Iwerddon
Cadeirydd, Pwyllgor Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon Gogledd Iwerddon
Cadeirydd, Pwyllgor Rhaglen Ariannu Gwirfoddol a Chymunedol, Gogledd Iwerddon



**John Naylor OBE – Ymddiswyddodd 31 Mawrth 2006**
Aelod yr Alban
Cadeirydd, Pwyllgor Developing Communities yr Alban
Cadeirydd, Panel Cynghori Gwerthuso a Dysgu (hyd at Fawrth 2006)
Cadeirydd, Pwyllgor Cronfa Pobl Ifanc yr Alban



**Esther O'Callaghan**
Aelod Cyffredinol
Cadeirydd, Pwyllgor Grantiau Cenedlaethol Cronfa Pobl Ifanc Lloegr



**Anna Southall**
Aelod Cyffredinol
Cadeirydd, Pwyllgor Creu Cof Byw



**Huw Vaughan Thomas**
Aelod Cymru
Cadeirydd, Pwyllgor Rhaglen Ariannu Gwirfoddol a Chymunedol Cymru
Cadeirydd, Pwyllgor Cronfa Pobl Ifanc Cymru
Cadeirydd, Panel Cynghori Gwerthuso a Dysgu
(o Fawrth 2006)



**Diana Whitworth**
Aelod Cyffredinol

# Adran dau

- **Prif Weithredwr**
  Stephen Dunmore
  - **Cyfarwyddwr, Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol**
    Mark Cooke
  - **Cyfarwy-ddwr, Cymru**
    Ceri Doyle
  - **Cyfarwyddwr, Yr Alban**
    Dharmendra Kanani
  - **Cyfarwyddwr, Gweithrediadau**
    Adrienne Kelbie
  - **Cyfarwyddwr, Cynllunio a Pherfformiad**
    Gerald Oppenheim
  - **Cyfarwyddwr, Polisi a Chysylltiadau Allanol**
    Vanessa Potter
  - **Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon**
    Walter Rader

## Yr Uwch Dîm Rheoli

Penodir y Prif Weithredwr gan y Bwrdd ac ef yw'r Swyddog Cyfrifo hefyd. Mae'n cadeirio'r Uwch Dîm Rheoli, sy'n cefnogi'r Bwrdd gyda rheolaeth strategol y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn ystyried materion polisi a materion strategol a gweithredol allweddol y mae angen i'r Bwrdd a'i brif bwyllgorau eu cymeradwyo. Mae'r Uwch Dîm Rheoli hefyd yn cynnal trosolwg o weithrediadau'r sefydliad o ddydd i ddydd.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli'n cynnwys y Prif Weithredwr a saith Cyfarwyddwr. Nodir cylch gwaith pob Cyfarwyddwr yn siart y sefydliad ar y chwith.

Mae gan y Gronfa Loteri Fawr ddau Fwrdd Rheoli (Bwrdd Rheoli Sefydliadol a Bwrdd Rhaglenni Grant) sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithgareddau ar draws Cyfarwyddiaethau, gan wneud argymhellion i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd a gweithredu penderfyniadau a wneir ganddynt. Maent yn atebol i'r Uwch Dîm Rheoli.

## Cofrestr Buddiannau

Mae'n rhaid i holl aelodau Bwrdd a phwyllgor y Gronfa Loteri Fawr, aseswyr ac aelodau paneli cynghori ddatgan unrhyw fuddiant perthnasol yn unol â'n cod moeseg. Mae'r cod hwn yn cydymffurfio â chod ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus.

Os yw'r Bwrdd neu bwyllgor yn gwneud unrhyw benderfyniadau a fyddai'n rhesymol yn cael eu hystyried fel rhai sy'n achosi gwrthdaro buddiannau, yn bennaf ynghylch grantiau i sefydliadau ond hefyd unrhyw berthynas fasnachol, mae Cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau o'r cychwyn y gwneir y datgeliad a bod yr aelod yn gadael tra bod yr eitem berthnasol yn cael ei thrafod.

Mae'n rhaid i'r holl staff gwblhau datganiad blynyddol yn nodi unrhyw fuddiannau perthnasol. Mae hyfforddiant yn sicrhau bod yr holl staff yn gwybod bod yn rhaid iddynt nodi unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n codi yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Gall y cyhoedd weld y gofrestr o fuddiannau a datganiadau lletygarwch a nodwyd trwy ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad. Mae datganiadau o fuddiannau aelodau'r Bwrdd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Gronfa Loteri Fawr.